

Tynnu syst tagellol

Cyngor Rhyddhau

Llawdriniaeth i dynnu syst tagellol:

Ceir systiau tagellol yn ochr y gwddf. Maent yn bresennol o enedigaeth, ac yn dod yn fwy amlwg o blentyndod hwyr/oedolyn ifanc oherwydd dychweliad heintiau dro ar ôl tro.

Mae triniaeth syst tagellol yn golygu tynnu'r syst ac unrhyw feinwe gyswllt drwy lawdriniaeth. Perfformir hyn o dan anesthetig cyffredinol.

Beth i'w ddisgwyl wedi'r llawdriniaeth:

Gwneir toriad mewn cromen croen yn agos at y lwmp, ac mae'r syst ac unrhyw feinwe cysylltiedig yn cael eu tynnu. Weithiau gellir gosod draen fechan yn y gwddf a fydd angen aros dros nos yn yr ysbyty os felly. Fel arfer, caiff y draen ei dynnu'r diwrnod ar ôl y llawdriniaeth neu hirach os oes angen. Os yw popeth yn iawn, yna gallwch chi gael eich rhyddhau gartref.

Os defnyddir pwythau na ellir eu toddi, efallai y bydd angen tynnu'r rhain ar ôl wythnos. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi ar ôl y llawdriniaeth a'i nodi ar eich llythyr rhyddhau.

Nid yw'n anarferol teimlo'n fwy blinedig nag arfer am hyd at wythnos ar ôl eich llawdriniaeth, os ydych chi'n rhiant neu'n ofalwr bydd angen rhywfaint o gefnogaeth arnoch chi yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'n bwysig eich bod chi'n bwyta ac yfed fel arfer.

Sicrhewch fod safle eich clwyf yn cael ei gadw'n lân ac yn sych. Osgowch ddefnyddio colur a hufen â phersawr. Ar ôl un mis, tylinwch eich craith yn ofalus gyda hufen lleithio di-bersawr dwy neu dair gwaith y dydd.

Cymhlethdodau posibl a chyngor yn dilyn llawdriniaeth

Gwaedu: mae'r risg o waedu yn isel ac mae'n bwysig osgoi unrhyw weithgarwch egniïol yn y cyfnod yn union wedi'r llawdriniaeth er mwyn leihau'r perygl hwn. Gallai gwaedu arwain at hematoma (ceulad gwaed) yn ffurfio o dan y clwyf. Efallai y bydd angen llawdriniaeth bellach arnoch i atal y gwaedu a chael gwared ar y ceulad.

Heintiad: mae perygl o gael heintiau gydag unrhyw driniaeth lawfeddygol, ond cyn belled â bod y clwyf yn lân, mae'r risg yn fach iawn.

Difrod i'r nerf: mae risg fach iawn o anaf i nerfau cyfagos, gan gynnwys nerf yr wyneb (gan achosi gwendid yr wyneb) a nerf ategol (a all arwain at anystwythder neu ogwydd yr ysgwydd). Mae hyn fel arfer yn ymddangos yn syth ar ôl llawdriniaeth.

Dychweliad: Mae risg fechan efallai y bydd angen llawdriniaeth bellach arnoch os bydd y syst yn dychwelyd.

Cyfnod adfer:

Efallai y byddwch chi'n dioddef rhywfaint o boen wrth lyncu oherwydd y llawdriniaeth a'r tiwb anesthetig. Mae hyn yn normal a dylai ddatrys ar ôl 72 awr.

Gall anystwythder yn y gwddf ddigwydd hefyd a dylech symud eich pen o fewn eich terfynau arferol i atal anystwythder.

Dylech gymryd o leiaf 2 wythnos i ffwrdd o'r ysgol/gwaith er mwyn dod dros y llawdriniaeth. Gellir darparu nodyn salwch cyn eich rhyddhau o'r ysbyty os oes angen.

Bydd gennych graith. Bydd hyn yn edrych yn goch ond bydd yn pylu yn araf dros gyfnod amrywiol o amser rhwng ychydig fisoedd ac ychydig flynyddoedd. Mae rhai pobl yn cynhyrchu craith Keloid (wedi ei godi/â lliw uchel). Mae hyn oherwydd eu math o groen; mae'n anrhagweladwy cyn y llawdriniaeth a gellir ei drin yn ddiweddarach o bosib. Bydd angen i chi amddiffyn eich craith rhag golau haul uniongyrchol am o leiaf 18 mis; fe'ch cynghorir i ddefnyddio eli atal haul cyfan.

Ôl-driniaeth:

Dylech gael eich gweld yn y clinig claf allanol tua 2 i 6 wythnos ar ôl llawdriniaeth. Ar yr adeg yma dylai profion labordy ar eich syst fod ar gael. Bydd eich llawfeddyg hefyd yn gallu adolygu'ch gwddf ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Os na fyddwch chi'n derbyn yr apwyntiad hwn, ffoniwch y swyddfa archebu cleifion allanol ar 01495 765055.

GWYBODAETH RHYDDHAU MEWN ARGYFWNG

09:00 i 17:00 Llun-Gwener (ac eithrio gwyliau banc): Cysylltwch ag ystafell driniaeth Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) ar 01633 234018

Ar ôl 17:00/dros nos (oedolion): Uned Asesu Lawfeddygol C0 ar 01633493926 or 01633493922.

Ar ôl 17:00/dros nos (plant): Ward Dwyreiniol C1 ar 01633 493609

Mewn achos brys oherwydd methu anadlu, ewch i'ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf. Gall hyn ddigwydd gyda gwaedu neu chwyddo yn eich gwddf, yn arbennig felly yn ystod y 48 awr gyntaf wedi'r llawdriniaeth.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English"**